# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-03-07(p1)

### Dyddiad: Dydd Mercher 7 Chwefror 2007
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 3, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2005-2006: Adroddiad y Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

#### Pwrpas

Cyflwyno Adroddiad y Prif Arolygydd ar gyfer 2005-2006 i’r Pwyllgor ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Rhoi cyfle i drafod y prif themâu sy'n codi i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

#### Crynodeb ac argymhellion

Nodi a chyflwyno sylwadau am adroddiad y Prif Arolygydd "Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2005-2006".

#### Cefndir

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 31 Ionawr 2007 a'i ddosbarthu'n eang. Trefnwyd bod copïau ar gael i Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n defnyddio tystiolaeth o werthusiadau perfformiad blynyddol AGCC o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau yng Nghymru, o'i harolygiadau a'i hadolygiadau ac o raglenni gwaith eraill sydd â'r bwriad o hybu gwelliant.

Yn adroddiad y llynedd nododd y Prif Weithredwr arwyddion calonogol o welliant yn y gwasanaethau. Eleni, nododd yr adroddiad dystiolaeth gynyddol o welliannau cyffredinol, yn yr ymateb i'r arolwg, dangosyddion perfformiad a chanfyddiadau'r arolwg. Bu datblygiadau sylweddol mewn rhai awdurdodau a fu'n achos pryder yn y gorffennol. Bu gwelliant cyffredinol o ran rheoli perfformiad ac mewn cefnogaeth ac archwilio corfforaethol a gwleidyddol. Ond mae'r arolygon a'r adolygiadau yn parhau i sylwi bod gormod o anghysondebau a bod rhai bylchau mewn gwasanaethau a phwysau sylweddol arnynt.

Mae'r digwyddiadau o bwys ers mis Mawrth diwethaf yn cynnwys lansio'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol o dan nawdd CLlLC, cyhoeddi Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru: Galwedigaeth i'w Mawrbrisio gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac wrth

gwrs ddatblygiadau mewn polisïau llywodraeth trwy Creu'r Cysylltiadau, yr ymateb i adolygiad Beecham ac, i'r gwasanaethau cymdeithasol yn benodol, Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol. Dywed yr adroddiad bod y rhain yn dangos dechrau cyfnod newydd o ddatblygu i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

### Daw'r adroddiad i'r casgliad y bydd yn rhaid i wasanaethau cymdeithasol lleol:

- barhau i wella perfformiad - ac mae'n rhaid i'r awdurdodau nad ydynt yn perfformio gystal ac eraill gywiro hyn ar fyrder;
- ail-lunio eu gwasanaethau - gan gydweithio llawer mwy â'i gilydd, gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a darparwyr gwasanaeth annibynnol - i fodloni polisïau a gofynion sy'n newid;
- parhau i ddatblygu eu gweithlu, i ganiatáu staff i roi eu gorau yn gyson;
- gwella effeithlonrwydd eu busnes, i gael y gwerth gorau am arian;
- canolbwyntio ar brofiad y rhai hynny sydd angen y gwasanaethau a'r canlyniadau y maent yn eu rhoi;
- datblygu'r swyddogaeth ehangach o fod yn arweinydd er mwyn hybu annibyniaeth unigol a chynhwysiant cymdeithasol ar draws y gwasanaethau lleol.

### Cydymffurfio

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cyflawni dyletswydd y Cynulliad, sydd wedi'i dirprwyo i'r Prif Arolygydd, o dan Adran 142 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, i gyhoeddi adroddiad am ei swyddogaethau o dan Bennod 6 y Ddeddf.

### Casgliad

Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig eu sylwadau ar yr adroddiad.

Brian Gibbons AC
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog cyswllt: Richard Tebboth, Prif Arolygydd Dros Dro, AGCC Est: 3196